# Mesur Addysg (Cymru) 2011

**2011 mccc 7**

## RHAN 2

LLYWODRAETHU YSGOLION

### PENNOD 1

FFEDEREIDDIO YSGOLION A GYNHELIR

**11 Cynigion gan awdurdodau lleol i ffedereiddio ysgolion**

(1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i ffedereiddio—
  (a) dwy neu ragor o ysgolion a gynhelir;
  (b) ffederasiwn sy'n bodoli eisoes ac un neu ragor o ysgolion a gynhelir;
  (c) dau neu ragor o ffederasiynau sy'n bodoli eisoes.

(2) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi cynigion a wneir o dan yr adran hon.

(3) Rhaid i awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau, ymgynghori â'r personau canlynol ar y cynigion a gyhoeddir—
  (a) cyrff llywodraethu ysgolion neu ffederasiynau i'w ffedereiddio;
  (b) staff yr ysgolion;
  (c) un neu ragor o gyrff (os oes) yr ymddengys i'r awdurdod eu bod yn cynrychioli buddiannau staff yr ysgolion;
  (d) i'r graddau y mae'n ymarferol, disgyblion a gofrestrwyd yn yr ysgolion a'u rhieni.

(4) Nid yw is-adran (2) na (3) yn gymwys mewn perthynas â chynnig ar gyfer ffederasiwn a ffurfir o ysgolion bach yn unig.

(5) Mewn perthynas â chynnig ar gyfer ffederasiwn a ffurfir o ysgolion bach yn unig, rhaid i'r awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau, ymgynghori â chyrff llywodraethu'r ysgolion dan sylw.

(6) Ystyr "ysgol fach" yn is-adrannau (4) a (5) yw ysgol a gynhelir sydd, ar y dyddiad y gwneir y cynnig o dan is-adran (1), yn ysgol fach a gynhelir yn ôl y diffiniad mewn gorchymyn o dan adran 15.

(7) Rhaid i awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau, benderfynu p'un ai—

- (a) cadarnhau cynigion, gyda neu heb addasiad neu'n ddarostyngedig i ddigwyddiad, neu
- (b) eu tynnu'n ôl.

(8) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion ar gyfer ffederasiwn sy'n cynnwys ysgol a gynhelir a honno'n ysgol nad yw'n ei chynnal cyhyd â bod yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol yn cydsynio.

(9) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion ar gyfer ffederasiwn sy'n cynnwys ysgol sefydledig neu wirfoddol cyhyd â bod y personau canlynol yn cydsynio—

- (a) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, a
- (b) yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu wirfoddol arall, y person neu'r personau y penodwyd y llywodraethwyr sefydledig ganddynt.

(10) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch cynigion o dan yr adran hon ac (ymhlith pethau eraill) gwneud darpariaeth ynghylch—

- (a) sicrhau cydsyniad personau rhagnodedig i wneud, cyhoeddi neu gadarnhau cynigion;
- (b) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cynigion, neu sydd i'w darparu mewn perthynas â hwy;
- (c) cyhoeddi cynigion;
- (d) ymgynghori ynghylch y cynigion;
- (e) gwneud gwrthwynebiadau i'r cynigion neu sylwadau ar y cynigion;
- (f) tynnu'r cynigion yn ôl neu eu haddasu;
- (g) y modd y mae'r awdurdod lleol i gadarnhau'r cynigion.